Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru | For learners, for Wales

Angharad Davies
Ysgol Gymraeg y Trallwng
Howell Drive
Welshpool
Powys
SY21 7AT

01/03/2025

Annwyl Angharad Davies

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymraeg Y Trallwng yn ddiweddar i ystyried sut mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i’r afael â dau o’r argymhellion o’u harolygiad craidd ym mis Chwefror 2020. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i ymweld â dosbarthiadau, siarad â disgyblion, cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr, craffu ar waith disgyblion, craffu ar ddogfennaeth ac i edrych ar y gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i wella. Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio’n fwriadus i fynd i’r afael â’r argymhellion hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau i’w datblygu ymhellach.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau bod ysgrifennu ymestynnol y disgyblion mwy abl a thalentog yn adlewyrchu eu gwir alluoedd

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at fodloni gofynion yr argymhelliad hwn. Maent yn cydnabod y gwelliannau ers yr arolygiad craidd, ac wedi mynd i’r afael â newidiadau pwrpasol i’r ddarpariaeth i gefnogi datblygiad ysgrifennu ymestynnol y disgyblion.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu’r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae arweinwyr yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth wrth fonitro'r argymhelliad fel rhan o'r prosesau hunan wella. Mae'r holl dîm yn cyfrannu at y gweithdrefnau hyn, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen ei wella i gefnogi medrau ysgrifennu ymestynnol disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llafar disgyblion yn y lle cyntaf cyn mynd i'r afael â gwella medrau ysgrifennu. Ar y cyfan, mae athrawon yn monitro amrediad y genres ysgrifennu ymestynnol yn addas wrth i'r themâu ddatblygu. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu ymhellach rolau arweinwyr canol i gymryd rhan fwy rhagweithiol yn y prosesau monitro a hunan wella.
- Ar y cyfan, mae cysondeb clir i'w weld yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Mae staff yn darparu cyfleoedd effeithiol iawn i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llafar trwy gyfrwng sesiynau byrlymus i gyflwyno geirfa ac ymadroddion pwrpasol i gefnogi'r disgyblion wrth ysgrifennu. Mae'r gwaith yma yn cael effaith gadarnhaol ar hyder y disgyblion i fynegi eu hunain ar lafar cyn ysgrifennu mewn amrediad o gyd-destunau. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn ysgrifennu at wahanol ddibenion yn effeithiol gan ddefnyddio ffurf a geirfa fwriadus gan addasu eu gwaith yn bwrpasol.
- Mae gan athrawon a'r staff cymorth adnabyddiaeth drylwyr iawn o'r disgyblion. Maent yn cynllunio'n ofalus a hynod effeithiol ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion gan sicrhau cyfleoedd bwriadus iddynt ddefnyddio eu medrau ysgrifennu ymestynnol mewn cyd-destunau diddorol drwy'r defnydd o fatiau themâu.

## Gwella'r ddarpariaeth i gefnogi'r addysgu a'r dysgu yn ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen

- Ers symud i adeilad newydd, mae'r staff wedi gweithio'n ddiwyd i gyfoethogi'r ardaloedd allanol gydag adnoddau pwrpasol a defnyddiol. Yn ystod yr arolygiad craidd roedd yr ysgol mewn hen adeilad heb gyfleusterau addas i gynnig addysg y tu allan i'r disgyblion.
- Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y ddarpariaeth yn yr ardaloedd allanol yn hybu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn effeithiol.
- Drwy fonitro rheolaidd a thrwyadl, mae'r uwch dîm wedi adnabod yr angen i ddatblygu annibyniaeth disgyblion ymhellach yn yr ardaloedd tu allan.
- Mae athrawon wedi dechrau cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion y dysgu sylfaen gymhwyso eu medrau yn yr ardaloedd allanol yn annibynnol. Er enghraifft, mae athrawon yn sicrhau ystod o gyfleoedd i ddisgyblion bwyso gwrthrychau amrywiol yn defnyddio tafolau gwahanol. Mae hyn yn dilyn sesiynau penodol yn datblygu medrau pwyso a mesur disgyblion.

- Yn yr arfer orau mae disgyblion yn dysgu drwy chwarae gydag adnoddau sydd wedi eu gosod yn bwrpasol gan yr athrawon er mwyn iddynt ddatblygu eu medrau, yn unol â'u hoed, eu cyfnod datblygu a'u gallu. Golyga hyn fod llawer o ddisgyblion y dysgu sylfaen yn datblygu ystod o fedrau yn llwyddiannus wrth chwarae a dysgu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6662154

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol